Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Sut defnyddiodd ysgolion a cholegau'r grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RAChS) neu'r grant dal i fyny ar gyfer dysgwyr ôl-16

Mehefin 2021



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2021:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys Tudalen


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **5**

**1 Sut defnyddiodd arweinwyr ysgolion y grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RACHS) ar gyfer dysgwyr ôl-16** **6**

Gweithio mewn partneriaeth 9
Cefnogi medrau Cymraeg dysgwyr 11
Rôl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol 12
Sut gwerthusodd arweinwyr ysgolion effaith y grant RACHS ar gyfer dysgwyr ôl-16 13

**2 Sut defnyddiodd arweinwyr colegau y grant dal i fyny** **16**

Gweithio mewn partneriaeth 19
Cefnogi medrau Cymraeg dysgwyr 20
Sut gwerthusodd arweinwyr colegau effaith y grant dal i fyny 21

**3 Casglaidau ac awgrymiadau ar gyfer gosod grantiau dal i fyny yn y dyfodol** **22**

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** **25**

**Atodiad 2: Amserlen y digwyddiadau a effeithiodd ar ysgolion a cholegau er mis Mawrth 2020** **27**

**Atodiad 3: Egwyddorion ar gyfer defnyddio'r grant RACHS** **29**

**Geirfa** **32**

**Cyfeiriadau** **33**

## Cyflwyniad

Mae'r pandemig byd-eang a achoswyd gan feirws COVID-19 wedi cael effaith eang ar addysgu a dysgu mewn ysgolion a cholegau.  Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cymorth ar gyfer dysgwyr ôl-16 er mis Medi 2020 trwy'r grant 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: y Rhaglen Dysgu Carlam' (y grant RACHS) mewn ysgolion a'r grant dal i fyny mewn colegau addysg bellach (AB).  Mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu i ymateb i gais am adolygiad cyflym yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg i Estyn ar gyfer 2021-2022.  Bydd negeseuon allweddol ac argymhellion yn llywio arweiniad a monitro ar gyfer cyllid tebyg yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio sail y dystiolaeth a amlinellir yn Atodiad 1, ac yn cynnwys cyfweliadau ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, a grwpiau o ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau, yn ogystal ag arweinwyr ac ymgynghorwyr her mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.  Cynhaliodd arolygwyr bob un o'r rhain o bell.  Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cameos arfer ddiddorol o ysgolion a cholegau addysg bellach.  Nid astudiaethau achos yw'r rhain, gan na allwn werthuso effaith y gwaith yn llawn oherwydd y cyfyngiadau ar ein gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19.  Mae'r cameos wedi eu cynnwys i ddangos enghreifftiau o bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, a rhoi blas o'r gwaith sydd wedi digwydd ledled Cymru.

## Cefndir

### Y grant RACHS a'r grant dal i fyny ôl-16

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at darfu sylweddol ar gynnydd dysgwyr er mis Mawrth 2020 (gweler Atodiad 2 am amserlen o ddigwyddiadau).

Ar 9 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu £29 miliwn yn ychwanegol i ysgolion i hybu cefnogaeth i ddysgwyr mewn cyfnodau tyngedfennol yn eu haddysg o fis Medi 2020.  Y rheswm am hyn oedd, yn ystod yr argyfwng cychwynnol yn nhymor yr haf 2020, ni wnaeth llawer o ddysgwyr gymaint o gynnydd mewn dysgu ag y byddent wedi'i wneud o dan amgylchiadau arferol.  Cafodd rhai grwpiau o ddysgwyr eu heffeithio'n fwy difrifol nag eraill.  Strategaeth Llywodraeth Cymru oedd y dylai darparwyr dargedu cymorth ychwanegol ym Mlynyddoedd 11, 12 ac 13, yn ogystal â dysgwyr dan anfantais a dysgwyr bregus o bob oedran.  Hefyd, rhagwelwyd y byddai'r grant yn galluogi ysgolion i recriwtio'r hyn sydd gyfwerth â 600 o athrawon ychwanegol, a 300 o gynorthwywyr addysgu trwy gydol blwyddyn academaidd 2020 – 2021.

I ddechrau, bwriad y grant RACHS oedd cynnwys dysgwyr yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau ychwanegol ar gyfer colegau a dosbarthiadau chweched (mewn ysgolion, enw'r grant hwn oedd y grant RACHS o hyd, ac roedd yr amodau ar gyfer ei wario yr un fath â'r

rhai a amlinellwyd yn y dyraniad cychwynnol). Darparwyd dros £15 miliwn i gefnogi dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau galwedigaethol mewn coleg AB neu chweched dosbarth. Roedd hyn yn cynrychioli 5% o gynnydd i gyllid fesul myfyriwr.

Bwriad y cyllid a ddarperir gan y grant oedd galluogi buddsoddiad gan ysgolion a cholegau i recriwtio a defnyddio capasiti dynol ychwanegol i gefnogi a mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr yn dilyn argyfwng cychwynnol COVID-19 a chyfnodau pan oedd ysgolion ar gau ym mis Tachwedd 2020 ac yn nhymor y Gwanwyn 2021.

Amlinellodd Llywodraeth Cymru (2020a) bum egwyddor i arwain **ysgolion** yn eu penderfyniadau gwario ar gyfer y grant RACHS (gweler Atodiad 2).

## Sut caiff cyllid ar gyfer ysgolion a cholegau ei weinyddu

Mae cyllidau yn cyrraedd ysgolion a cholegau mewn gwahanol foddau. Caiff colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglenni dysgu y maent yn eu darparu ar gyfer dysgwyr 16–19 mlwydd oed. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu dyraniadau i ariannu dosbarthiadau chweched ysgolion unigol. Er bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio methodoleg gyffredin i bennu cyllid dosbarthiadau chweched awdurdodau lleol a'r sector Addysg Bellach, mae'r trefniadau cyllid ar gyfer dosbarthiadau chweched ysgolion gan yr awdurdodau lleol yn amrywio ledled Cymru.

Yn unol ag arferion ôl-16, rhoddwyd y grant ar gyfer ysgolion i awdurdodau lleol, neu'r consortia rhanbarthol mewn rhai achosion, a oedd wedyn yn penderfynu ar faint y cyllid ychwanegol yr oedd ysgolion unigol yn ei gael ar sail ystyriaethau economaidd-gymdeithasol. Nid oedd hyn yn wir am golegau a oedd, yn hytrach, wedi derbyn 5% o gynnydd mewn cyllid fesul dysgwr yn uniongyrchol.

## Amodau ar gyfer gwario'r grantiau

Pan gafodd ysgolion a cholegau eu llythyrau grant RACHS a grant dal i fyny priodol ar gyfer dysgwyr ôl-16, roedd byrdwn bras y nodau a'r amcanion yn debyg. Ar gyfer ysgolion, bwriad eglur cyllid oedd recriwtio staff ychwanegol; ar gyfer colegau, y byrdwn oedd cynyddu'r amser addysgu sydd ar gael. Roedd yr amodau penodol ynghylch sut y dylid gwario'r grantiau hyn wedi eu geirio'n wahanol. Ceir detholiadau isod o lythyrau grant yn amlinellu'r amodau y dylai ysgolion a cholegau ddyrannu gwariant oddi tanynt[1].

Mewn ysgolion:

*'Mae'r cyllid hwn yn galluogi buddsoddiad mewn ysgolion er mwyn iddynt allu recriwtio a defnyddio capasiti dynol ychwanegol i gefnogi a mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr yn dilyn argyfwng COVID-19 a'r cyfnod dilynol pan gaewyd ysgolion.*

*Dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi dysgwyr ym Mlynyddoedd 12 ac 13 y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi,*

[1] Nid yw'r llythyron hyn ar gael yn gyhoeddus.

*er y bydd cwmpas a graddau'r cymorth yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.*

*Dyma'r ffocysau ar gyfer cymorth o dan y Rhaglen hon:*

*Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, bydd hyn yn cynnwys medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel uwch, mathemateg ar lefel uwch lle bo'n berthnasol, a chymhwysedd digidol ar y lefel briodol, ac fel y bo'n berthnasol i ddysgwyr sy'n gwneud cynnydd â'u cymwysterau.*

- *Datblygu medrau dysgu annibynnol, i alluogi a chymell dysgwyr ym mhob grŵp i wneud cynnydd cyflym trwy weithio'n fwy effeithiol ar eu pennau eu hunain a'r tu allan i'r ysgol.*

- *Cymorth ac ymgysylltu trwy hyfforddi – mae hyn i gydnabod y bydd angen hyfforddiant a chymorth emosiynol ar y dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf, yn ogystal â chymorth i baratoi ar gyfer arholiadau a medrau.'*

Rhoddwyd y cyfarwyddiadau canlynol i golegau:

***Cyllid Dal i Fyny***

*Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y tarfwyd yn sylweddol ar ddysgu'r rhan fwyaf o ddysgwyr eleni, ac y bydd bylchau yn nysgu llawer ohonynt, y bydd angen eu llenwi yn ystod tymor yr Hydref.*

*Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu i gydnabod costau ychwanegol darparu'r cymorth addysgu cynyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer y myfyrwyr hynny a gollodd ddysgu wyneb yn wyneb yn gynharach eleni, yn ogystal â chost ychwanegol cefnogi pontio i ddysgu ôl-16. Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwyr amser llawn, ac mae'n cynrychioli cynnydd o 5 y cant i gyllid fesul myfyriwr. Mae hyn, yn ei dro, yn cynyddu nifer yr oriau rydym ni'n eu hariannu ar gyfer rhaglen nodweddiadol, o 650 i 682 fesul rhaglen. Bydd yr arweiniad archwilio ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu hyn.*

Roedd gan arweinwyr ysgol nodau a gwaharddiadau penodol ar gyfer gwario'r grant; er enghraifft, roedd rhaid gwario'r grant ar grwpiau penodol o ddysgwyr, ond nid oedd y rhain wedi eu gwneud yn eglur i golegau.

Er bod y swm cyfan a roddir i ysgolion a cholegau yr un fath, rhoddwyd y cyngor canlynol i ysgolion gan Lywodraeth Cymru:

*'O ran ysgolion, dylai'r cyllid ychwanegol fod yn gysylltiedig â'r £29m yn sicr, gan mai gweithredu ar lefel ysgol gyfan yw'r nod, nid fel carfanau cyn-16 / ôl-16'* (Llywodraeth Cymru, 2020b). https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-cwestiynau-cyffredin-html

## Prif ganfyddiadau

1 Cynlluniodd bron pob ysgol a choleg yn ofalus i wneud defnydd da o'r grant RACHS neu'r grant dal i fyny. Yn y darparwyr hyn, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi gwerthfawrogi'r ddarpariaeth, y gofal a'r arweiniad ychwanegol a gawsant. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr wedi cynllunio eu gwariant yn strategol, ac maent dim ond wedi ychwanegu'r cyllid ychwanegol at eu prif gyllideb.

2 Mae graddau uchel o amrywioldeb yn y dulliau y mae arweinwyr wedi eu defnyddio wrth wario'r grant RACHS neu'r grant dal i fyny. Mewn ysgolion, y dulliau mwyaf cyffredin oedd penodi staff ychwanegol i:

- gwmpasu addysgu yng nghyfnod allweddol 3 er mwyn rhyddhau amser ar gyfer gwersi ychwanegol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 neu fwy o gymorth bugeiliol yn y chweched dosbarth
- addysgu pynciau penodol
- canolbwyntio'n bennaf ar les dysgwyr

3 Gan fod nifer uwch o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol mewn colegau, defnyddiodd arweinwyr ddulliau gwahanol i'r rhai mewn ysgolion. Gan amlaf, roeddent:

- yn darparu sesiynau 'dal i fyny' ychwanegol
- yn creu capasiti am sesiynau ychwanegol ar gyfer asesiadau ymarferol
- yn darparu capasiti ychwanegol i olrhain a chefnogi lles dysgwyr

4 Mae penodi staff ychwanegol o safon uchel ar fyr rybudd wedi bod yn heriol i ddarparwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac ardaloedd ag amddifadedd uchel. Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr mewn ysgolion a cholegau wedi ymestyn oriau ar gyfer staff rhan-amser, wedi talu goramser i staff presennol neu wedi cadw gwasanaethau staff a oedd ar fin ymddeol.

5 Mae ychydig o ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wedi defnyddio'r grant yn strategol i sicrhau bod dysgwyr yn cynnal eu medrau siarad Cymraeg yn ystod cyfnodau pan nad oeddent yn gallu mynychu'r ysgol wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw hon wedi bod yn agwedd gref ar waith darparwyr ac mae gafael dysgwyr ar y Gymraeg a'u hyder i'w defnyddio wedi dirywio yn ystod y cyfnod clo.

6 Mewn llawer o achosion, mae cyrsiau a gynhelir mewn partneriaeth â darparwyr eraill sydd fel arfer yn cynnwys dysgwyr yn symyd rhwng ganolfannau wedi gweithredu'n esmwyth trwy ffrydio gwersi ar y rhyngrwyd. Mewn ychydig o achosion, nid yw cyrsiau a gynhelir mewn partneriaeth wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus, ac mae dysgwyr wedi rhoi'r gorau i ddilyn y cyrsiau hyn. Ar y cyfan, mae hyn oherwydd bod dysgwyr sy'n dechrau ar gyrsiau partneriaeth newydd wedi gweld dysgu o bell yn y cyd-destun yma'n rhwystredig ac aneffeithiol.

7 Dywed yr holl ysgolion a cholegau eu bod wedi gweithio'n agos ag ystod o wasanaethau allanol, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd, yr heddlu a gwasanaethau cwnsela. Mae cynnydd wedi bod yn y galw am bob un o'r gwasanaethau hyn yn ystod y pandemig. Mae arweinwyr mewn ychydig o ysgolion wedi gweithio'n greadigol gyda darparwyr eraill i werthuso gwaith ei gilydd neu nodi a mynd i'r afael â bylchau yn nysgu dysgwyr. Mae Colegau Cymru wedi darparu rhwydweithiau defnyddiol i arweinwyr coleg drafod materion a rhannu arferion yn ystod y pandemig.

8 Mae llawer o arweinwyr ysgol wedi cysylltu'n rheolaidd â chynrychiolwyr o gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Yn yr achosion mwyaf defnyddiol, mae'r cynrychiolwyr hyn wedi cynnig arweiniad gwerthfawr ar ddulliau dal i fyny i arweinwyr, yn seiliedig ar ymchwil.

9 Mae llawer o arweinwyr mewn ysgolion a cholegau yn gwerthuso a mireinio eu dull o wario'r grant yn barhaus yn ystod y pandemig. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gan arweinwyr weledigaeth am yr hyn yr hoffent ei gyflawni, ac yn gosod ystod o feini prawf y gallant olrhain a gwerthuso unrhyw fenter yn eu herbyn. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr wedi ystyried effaith gwariant ychwanegol.

## Argymhellion

**Yn achos grantiau tebyg yn y dyfodol, dylai arweinwyr mewn ysgolion a cholegau:**

A1 Sicrhau bod ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y deilliannau y maent yn dymuno eu cael o wariant ychwanegol

A2 Gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu strategaethau i gefnogi cynnydd a lles dysgwyr

A3 Olrhain a gwerthuso'n effaith unrhyw wariant ychwanegol yn aml er mwyn addasu cynlluniau cyfredol lle mae angen, a llywio eu cynllunio dyfodol

A4 Ystyried adeiladu ar newidiadau llwyddianus wnaethon i'w harferion yn ystod y pandemig

A5 Sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg yn flaenoriaeth, ni waeth beth yw cefndiroedd ieithyddol dysgwyr

**Dylai consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol:**

A6 Olrhain a gwerthuso llwyddiant gwahanol fodelau sy'n darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr ar draws eu hardaloedd, gan gyfeirio at y dangosyddion a awgrymir yn yr adroddiad hwn

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 Sicrhau bod amodau ar gyfer unrhyw wariant o'r grant dal i fyny yn y dyfodol yn briodol hyblyg, ac yn hafal ar gyfer ysgolion a cholegau

## Sut defnyddiodd arweinwyr ysgol y grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RACHS)

10 Nifer y dysgwyr yn y chweched dosbarth oedd yn pennu swm y cyllid ychwanegol a gafodd ysgolion trwy'r grant RACHS. Roedd hyn yn golygu bod dosbarthiadau chweched bach yn cael symiau ychwanegol o ryw ychydig filoedd o bunnoedd, tra oedd y dosbarthiadau chweched mwyaf yn derbyn symiau o ryw £100,000 neu'n uwch. Felly, roedd dosbarthiadau chweched mwy yn gallu gwneud mwy â'r grant na rhai llai. Pan gyhoeddwyd y grant i ddechrau, roedd arweinwyr yn ansicr ynglŷn â chyfran y cyllid y dylid ei dyrannu'n benodol i ddysgwyr yn y chweched dosbarth. Hefyd, roeddent yn ansicr ynghylch pa mor hir y byddai'r grant yn para. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, mynegodd pob arweinydd ysgol eu diolchgarwch am y cyllid grant, a chytunodd y rhan fwyaf ohonynt ei fod yn eu galluogi i gynyddu darpariaeth yn benodol i bwnc, a gwella gofal bugeiliol ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth.

11 Mae graddau uchel o amrywioldeb yn y dulliau y mae arweinwyr ysgol wedi eu defnyddio wrth wario'r grant RACHS. Mewn llawer o achosion, rhoddwyd ystyriaeth dda i'w dull, ac roedd yn cyd-fynd yn agos â nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y grant. Yn yr achosion hyn, targedodd arweinwyr ysgolion y gwariant ychwanegol yn ofalus fel ei fod o fudd i grwpiau penodol o ddysgwyr. Ar ddechrau'r pandemig, pan oedd yr addysgu wyneb yn wyneb yn bennaf, roedd y grwpiau hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, bechgyn, y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, a dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl gartref. Mewn llawer o ysgolion, cynhaliodd arweinwyr oruchwyliaeth gadarn ar sut roedd y grant yn cael ei wario, a'i effaith ar ddysgwyr unigol ac ymgysylltiad, cyflawniad, presenoldeb a lles grwpiau o ddysgwyr.

12 Wrth i'r cyfnod clo ddechrau ym mis Ionawr 2021 a'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn aros gartref, daeth grwpiau ychwanegol o ddysgwyr yn ffocws ar gyfer cymorth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dysgwyr oedd â mynediad cyfyngedig at offer TGCh
- dysgwyr mwy abl
- dysgwyr a oedd wedi dangos lefelau ymgysylltu isel â darpariaeth ar-lein
- dysgwyr yn arddangos gorbryder sylweddol am y pandemig

13 Mewn ychydig o achosion, ni wnaeth arweinwyr ysgolion ystyried sut byddent yn gwario'r grant RACHS yn strategol, ac yn syml, fe wnaethant ychwanegu'r cyllid ychwanegol at eu cyllideb gyffredinol. Yn yr ysgolion hyn, ymatebodd staff mewn modd ad hoc i anghenion dysgwyr. Ni wnaeth arweinwyr yn yr ysgolion hyn fonitro'r gwariant ychwanegol, ac o ganlyniad, nid oes ganddynt lawer o syniad am effaith y cyllid hwn. Mewn ychydig iawn o achosion, ni wariodd arweinwyr yr arian. Yn hytrach, maent yn bwriadu defnyddio'r grant i ddarparu gweithgareddau dal i fyny yn ystod gwyliau'r haf.

14 Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi defnyddio'r grant RACHS i greu capasiti ychwanegol er mwyn gwella cynnydd dysgwyr, a chynnig arweiniad a chymorth

iddynt. Mewn llawer o ysgolion, roedd uwch arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio'n fanwl sut i ddefnyddio'r grant, ac yn cynnwys llywodraethwyr yn y trafodaethau hyn. Mewn llawer o achosion, cafodd arweinwyr drafodaethau rheolaidd defnyddiol hefyd â chynrychiolwyr consortia rhanbarthol neu awdurdod lleolau ar sut i ddefnyddio'r grant.

15 Y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd gan arweinwyr ysgolion i gefnogi myfyrwyr chweched dosbarth oedd:

- **Penodi staff ychwanegol i gwmpasu addysgu yng nghyfnod allweddol 3 er mwyn rhyddhau amser ar gyfer addysgu neu gymorth bugeiliol yn y chweched dosbarth**

Galluogodd y dull hwn yr ysgolion i gynnig gwersi rheolaidd, ychwanegol i ddysgwyr, a darparu amser i staff bugeiliol ymgysylltu'n amlach â dysgwyr i gefnogi eu lles. Yn yr ysgolion hyn, roedd dysgwyr yn y chweched dosbarth yn gadarnhaol ynglŷn â'r ddarpariaeth maent wedi'i chael, ar y cyfan, ac yn gwerthfawrogi'r pryder a'r arweiniad a roddir iddynt. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn peryglu ansawdd y ddarpariaeth a gynigir i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 3. Mae hyn oherwydd bod athrawon profiadol â pherthnasoedd gweithio sefydledig yn cael eu disodli gan staff cyflenwi nad ydynt, mewn rhai achosion, yn adnabod y dysgwyr na'r rhaglen ddysgu yn dda iawn.

- **Penodi athrawon pwnc ychwanegol**

Yn gyffredinol, nid yw ysgolion wedi ei chael yn hawdd recriwtio staff cymorth neu addysgu ychwanegol yn gyflym. Ar y cyfan, mae hyn oherwydd y diffyg staff sy'n briodol gymwys sydd ar gael i ddechrau swyddi ar fyr rybudd, hyd y broses recriwtio a'r anghenion sy'n newid yn barhaus yn yr ysgol o ganlyniad i'r pandemig sy'n datblygu.

Yn benodol, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac ysgolion mewn ardaloedd ag amddifadedd economaidd wedi ei chael yn eithriadol o anodd penodi staff newydd. Yn hytrach, mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn wedi gwario'r arian ar gynyddu oriau staff rhan amser, ac wedi perswadio staff a oedd ar fin ymddeol i aros. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion wedi defnyddio'r grant i leihau meintiau dosbarthiadau mewn pynciau poblogaidd. Yn yr achosion hyn, dywed dysgwyr eu bod wedi gwerthfawrogi'r sylw personol ychwanegol y maent wedi'i gael. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr o'r farn fod y ddarpariaeth ychwanegol hon wedi eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Pan fu'n rhaid i athrawon mewn pynciau y mae galw mawr amdanynt hunanynysu am gyfnodau estynedig, yn aml, bu'n rhaid i arweinwyr ddefnyddio staff ychwanegol i addysgu y tu allan i'w prif faes arbenigedd pwnc ar fyr rybudd, a gyda'r arweiniad lleiaf. O dan amgylchiadau arferol, rhoddir profiad addysgu Safon Uwch ychwanegol i athrawon yn gynyddrannol. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i staff sydd fel arfer yn addysgu yng nghyfnod allweddol 3 neu gyfnod allweddol 4 wella eu medrau yn gyflym i fod yn gyfarwydd â'r rhaglenni astudio lefel A.

Mae lleiafrif o ysgolion wedi defnyddio'r grant trwy gynnig cymorth pwnc ychwanegol ar ôl oriau ysgol. Darparwyd y tiwtora ychwanegol hwn naill ai gan staff o'r ysgol, neu drwy dalu am wersi allanol ar-lein.

- **Penodi staff ychwanegol i ganolbwyntio'n bennaf ar les dysgwyr**

Mewn lleiafrif o achosion, mae ysgolion wedi targedu'r cyllid ychwanegol i gyflogi staff i fonitro a chefnogi lles dysgwyr (gweler Cameo – Ysgol Uwchradd Y Fflint). Yn gyffredinol, mae'r aelodau staff hyn wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr, yn aml trwy sgyrsiau dros y ffôn. Maent wedi blaenoriaethu grwpiau penodol o ddysgwyr ac olrhain eu perfformiad yn agos, gan gynnal cyfathrebu rheolaidd â'u hathrawon pwnc. O ganlyniad, roeddent yn gallu defnyddio eu gwybodaeth i gydlynu pwnc neu gymorth ychwanegol ar gyfer lles dysgwyr unigol. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion wedi sôn am anawsterau wrth geisio defnyddio gwasanaethau cwnsela, ac wedi nodi bod ôl-groniad yn datblygu dros gyfnod. Mewn llawer o ysgolion, dechreuodd arweinwyr bryderu'n benodol am les ychydig o ddysgwyr, a'u gwahodd i ddysgu yn 'hyb' yr ysgol yn ystod y cyfnod clo. Roedd y dysgwyr hyn yn eithriadol o ddiolchgar am y ddarpariaeth hon, a theimlai llawer ohonynt y byddent wedi cael trafferthion emosiynol a thrafferthion â'u dysgu pe na baent wedi cael cyfle i fynychu'r hyb.

Mewn ysgolion a fabwysiadodd y ffocws manylach hwn ar les, gwerthfawrogodd dysgwyr y cyswllt ychwanegol, a dywedont eu bod wedi cael cymorth amserol, fel gwersi ychwanegol yn cael eu cynnig gan eu hathrawon pwnc, a'u cyfeirio at adnoddau defnyddiol i gefnogi eu dysgu. Hefyd, gwerthfawrogont y gofal a roddodd staff yr ysgol iddynt, a theimlai ychydig ohonynt eu bod wedi elwa ar wasanaethau fel cwnsela.

Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd dysgwyr yn hoffi'r dull hwn, gan eu bod o'r farn fod y ffocws ar eu lles yn niweidiol i'w cynnydd mewn dysgu. Yn yr achosion hyn, roedd dysgwyr yn rhwystredig am yr angen i drafod materion yr oeddent wedi eu trafod eisoes mewn sgyrsiau ffôn, a byddent wedi croesawu mwy o her a chymorth yn benodol i bwnc.

**Cameo – Ysgol Uwchradd Y Fflint: Cefnogi lles dysgwyr**

Gwariodd uwch arweinwyr y grant RACHS ar gefnogi lles dysgwyr a sicrhau diogelwch ar-lein yn ystod gwersi a oedd yn cael eu ffrydio'n fyw. Rhoddwyd cylch gwaith 'Goruchwyliwr chweched dosbarth' dros dro i aelod o staff a oedd ar fin gorffen ar ddiwedd hanner tymor yr hydref, 2020.

Cynhaliodd y goruchwyliwr chweched dosbarth alwadau ffôn ymgysylltu wythnosol, yn canolbwyntio ar y dysgwyr mwy bregus. Yn ystod y galwadau ffôn hyn, asesodd y goruchwyliwr anghenion academaidd ac anghenion lles dysgwyr. Wedyn, cyfleodd y rhain i athrawon pwnc, tiwtoriaid dosbarth, ac aelodau staff eraill i gydlynu cymorth priodol yn benodol i bwnc neu les. Newidiodd y meini prawf ar gyfer adnabod y rhai roedd angen cymorth penodol arnynt wrth i staff ddatblygu eu dealltwriaeth o sut roedd unigolion penodol yn delio â'r cyfnod clo. O ganlyniad i ryngweithio agos â dysgwyr, roedd y goruchwyliwr chweched dosbarth yn gallu olrhain newidiadau yn eu hanghenion yn gywir a chydlynu cymorth teilwredig o ganlyniad. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r gofal a'r arweiniad a roddwyd gan yr ysgol. O ganlyniad, dywedont eu bod yn gallu gwneud cynnydd da yn eu cyrsiau, p'un a oedd y ddarpariaeth wyneb yn wyneb neu o bell.

## Gweithio mewn partneriaeth

16 Yn gyffredinol, yn ystod y pandemig, mae ysgolion wedi gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i sicrhau bod dysgwyr wedi cael arweiniad priodol ar lwybrau chweched dosbarth. Yn anochel, mae gwaith arferol ysgolion gyda phrifysgolion, Rhwydwaith Seren a Gyrfa Cymru wedi symud ar-lein. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi gwario rhan o'r grant ar wasanaethau ar y we i wella'r cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud ceisiadau i astudio mewn prifysgol. Dywed mwyafrif o ddysgwyr eu bod wedi cael arweiniad defnyddiol ond bod llawer ohonynt yn parhau i bryderu am y dyfodol. Yn benodol, mae dysgwyr yn bryderus am sut byddant yn cael eu hasesu, ac mae llawer ohonynt yn gweld annhegwch yn y system, er enghraifft o ganlyniad i amrywiad yn nifer yr asesiadau ar wahân sy'n ofynnol mewn gwahanol ysgolion. Mewn lleiafrif o achosion, mae dysgwyr yn teimlo nad ydynt wedi cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer prosesau derbyn prifysgol neu'r cam nesaf yn eu bywydau.

17 Pan gyflwynodd ysgolion ran o'u cynnig chweched dosbarth mewn partneriaeth â darparwyr eraill, roedd arweinwyr yn wynebu problemau teithio cymhleth i'w datrys oherwydd rheolau COVID-19 ynghylch cludiant, a'r angen i leihau cymysgu cymdeithasol. I ddatrys y problemau hyn, penderfynodd arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion y dylai darpariaeth ar gyfer cyrsiau mewn partneriaeth gael ei chynnig yn rhithwir. Er bod lleiafrif o ddysgwyr yn hapus â'r trefniant hwn, teimlai mwyafrif ohonynt fod hyn yn gwneud tro gwael â nhw, a dywedont eu bod wedi cael anawsterau yn mynd at waith, a bod diffyg rhyngweithio ar-lein â thiwtoriaid. Mewn llawer o achosion, teimlai dysgwyr yn amharod i bostio cwestiynau i gael eglurhad mewn cyfleusterau sgwrsio ar-lein, gan y byddai'r cwestiynau hyn yn ymddangos i bawb, gan achosi perygl o gywilydd cymdeithasol. Mewn ychydig o achosion, dywedodd dysgwyr eu bod yn teimlo bod athrawon mewn ysgolion partner yn eu hanwybyddu a bod eu cynnydd mewn pynciau roeddent wedi dewis eu hastudio yn yr ysgolion hyn yn wael. Mewn ychydig o achosion, roedd dysgwyr yn syml yn rhoi'r gorau i ddilyn cyrsiau roeddent wedi eu dewis mewn ysgolion partner, gan eu bod yn teimlo eu bod wedi datgysylltu gormod o'u tiwtoriaid.

18 Pan roedd gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno cyrsiau yn fwyaf llwyddiannus, roedd dysgwyr eisoes yn adnabod eu tiwtoriaid yn dda (gweler y Cameo ar waith rhwng Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe). Yn aml, roedd hyn o ganlyniad i drefniadau pontio cydlynus ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 a rhaglenni ymsefydlu tra ystyriol. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion wedi meddwl yn greadigol am sut i wneud y gorau o bartneriaethau penodol (gweler y Cameos ar gyfer Coleg Cymunedol y Dderwen ac Ysgol Gyfun Cwm Rhondda).

**Cameo – Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe yn ffurfio partneriaeth yn ystod y pandemig**

Ceir graddau sylweddol o weithio mewn partneriaeth yn y chweched dosbarth rhwng yr ysgolion. Caiff tua dau o bob tri phwnc naill ai eu haddysgu mewn un ysgol yn unig, neu rhennir yr addysgu rhwng y ddwy ysgol.

Cyn y pandemig, roedd dysgwyr yn teithio'n rheolaidd rhwng y ddwy ysgol yn ystod y dydd, gyda phob gwers wedi'i hamserlennu am ddwy sesiwn. Er mis Medi 2020, nid oedd dysgwyr yn teithio i'r ysgolion er mwyn sicrhau bod 'swigod' yn cael

eu cynnal. Yn hytrach, roedd yr holl wersi sy'n cael eu haddysgu gan y bartneriaeth yn cael eu ffrydio o un ysgol i'r llall er mwyn atal dysgwyr rhag cymysgu.

Dywedodd athrawon sy'n addysgu rhai o'r dosbarthiadau hyn fod y ddarpariaeth yn effeithiol gyda Blwyddyn 13 lle roedd athrawon eisoes yn adnabod y dysgwyr, ond roedd hyn yn llai effeithiol gyda dysgwyr Blwyddyn 12 gan nad oedd staff wedi datblygu perthynas waith gyda nhw. Yn yr un modd, nid oedd y dysgwyr hyn yn gallu meithrin perthnasoedd gyda dysgwyr eraill ar yr un cwrs.

Mae arweinwyr yn y ddwy ysgol yn gwerthuso'r addasiadau a wnaed eleni, ac yn ystyried cynnig darpariaeth y bartneriaeth y flwyddyn nesaf trwy gyfuniad o ddysgwyr yn teithio, ac yn cael mynediad at ffrydio byw.

**Cameo – Coleg Cymunedol y Dderwen: Nodi bylchau yn nysgu dysgwyr a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r rhain**

Yn ystod mis Medi, cyfarfu pennaeth y chweched dosbarth ag arweinwyr timau pwnc i nodi'r prif fylchau mewn dysgu. Defnyddiwyd y wybodaeth hon ochr yn ochr â dadansoddiad o ddata a gwybodaeth o weithgareddau llais y dysgwr i nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r cyllid grant. Ar ôl nodi'r prif flaenoriaethau, cynlluniodd yr ysgol y rhaglen 'Pontio'r Bwlch' ('Bridging the Gap') i fynd i'r afael â'r diffyg medrau a nodwyd. Nododd yr ysgol fedrau a oedd yn gyffredin i nifer o bynciau ac roedd rhan o'r rhaglen yn cynnwys dwy sesiwn ychwanegol ar amserlen dysgwyr Blwyddyn 12. Canolbwyntiodd y sesiynau hyn ar sut i drefnu ysgrifennu, sut i ysgrifennu traethodau o wahanol arddulliau, technegau adolygu, sut i ddefnyddio taenlenni ym Magloriaeth Cymru a medrau eraill y nodwyd gan ddysgwyr ac arweinwyr Timau Pwnc eu bod yn wendidau, am na wnaeth dysgwyr Blwyddyn 11 allu manteisio ar addysgu wyneb yn wyneb ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf. Nododd yr ysgol y byddai'n anodd recriwtio staff o safon dda mor fyr rybudd, ac yn hytrach, defnyddiont y bartneriaeth roedd ganddynt â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr i staffio'r sesiynau hyn â dau aelod o staff o'r coleg. Cafodd yr hyn a addysgwyd yn y sesiynau hyn gan diwtoriaid y coleg ei deilwra yn unol ag anghenion dysgwyr yr ysgol, a'i werthuso bob pythefnos gan y tiwtoriaid a phennaeth y chweched dosbarth. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys gweithgareddau rheolaidd llais y dysgwr. Roedd y dysgwyr a oedd yn rhan o'r gwaith hwn yn ddiolchgar am y sesiynau hyn, a dywedont eu bod yn fuddiol.

**Cameo – Ysgol Cwm Rhondda: Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwerthusiad gwrthrychol o wario grantiau**

Yn y sector ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, mae ysgolion yn gweithredu partneriaeth ble maent yn gyfrifol am oruchwylio gwaith ei gilydd. Yn rhan o'r trefniant hwn, craffodd penaethiaid Ysgol Llanhari, Ysgol Gartholwg, Ysgol Gyfun Rhydywaun ynghyd ag Ysgol Llangynwyd, ar gynlluniau ei gilydd. Fe wnaethant herio syniadau ei gilydd, gyda'r nod o sicrhau bod yr holl wariant er budd y dysgwyr. Parchodd yr holl gyfranogwyr yr her a gafwyd gan y penaethiaid eraill. Galluogodd y trefniant hwn i'r ysgolion fireinio eu cynlluniau a rhannu syniadau i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid.

### Cefnogi medrau Cymraeg dysgwyr

19 Un o'r grwpiau y nodwyd ei fod yn grŵp blaenoriaeth o'r amodau ar gyfer y grant oedd dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl gartref. Yn gyffredinol, parhaodd ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i ddarparu deunyddiau dysgu neu wersi wedi'u ffrydio yn yr iaith yr oedd dysgwyr wedi'i dewis i astudio cwrs penodol. Fodd bynnag, ni wnaeth pob un o'r arweinwyr yn yr ysgolion hyn gynllunio'n strategol i sicrhau bod dysgwyr yn cynnal eu medrau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Yn yr achosion hyn, sylwodd y rhan fwyaf o ddysgwyr, yn cynnwys y rhai a oedd yn siarad Cymraeg gartref, fod dirywiad yn eu gallu a'u hyder i gyfathrebu yn Gymraeg.

20 Mewn ychydig o achosion, rhagwelodd arweinwyr y byddai absenoldeb parhaus o'r ysgol yn arwain at ddirywiad yng Nghymraeg dysgwyr. Gwnaeth yr ysgolion hyn gynlluniau manwl a thra ystyriol i gefnogi Cymraeg dysgwyr yn ystod absenoldeb o'r ysgol, ac ailymgysylltu â nhw i siarad yr iaith wedi iddynt ddychwelyd i ysgolion. Roedd dysgwyr yn yr ysgolion hyn yn werthfawrogol o'r ymdrechion roedd eu hathrawon wedi eu gwneud i gynnal eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn gallu sgwrsio'n rhugl ac yn hyderus yn Gymraeg yn ein cyfarfodydd â nhw ar gyfer yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion hyn, dywedodd dysgwyr ei bod wedi cymryd cryn dipyn o amser iddynt ddod yn ôl i arfer defnyddio'r Gymraeg fel mater o drefn yn ystod eu rhyngweithio cymdeithasol.

**Cameo – Ysgol Gyfun Gŵyr: Cynnal safonau yn y Gymraeg**

Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, gwnaed y rhan fwyaf o'r dysgu o bell trwy adnoddau wedi eu paratoi ymlaen llaw y gallai dysgwyr eu defnyddio ar-lein. Roedd y math hwn o gyflwyno yn golygu bod cyfleoedd i ddysgwyr glywed a defnyddio'r Gymraeg yn gyfyngedig. Sylwodd staff fod medrau cyfathrebu dysgwyr yn Gymraeg wedi dirywio yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â'u tuedd i ddefnyddio'r iaith.

Roedd arweinwyr yn dra ymwybodol y dylai dysgwyr gael cynifer o gyfleoedd ag y bo modd i glywed yr iaith, a'i siarad. Yn ystod yr ail gyfnod clo, penderfynont y byddai'r amserlen arferol yn parhau p'un a oedd dysgwyr yn yr ysgol neu gartref. Byddai pob gwers yn cynnwys elfen o ddysgu gweithredol fel y gallai dysgwyr

glywed Cymraeg ym mhob gwers. Darparodd staff gyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg dros y ffôn a thrwy sesiynau cofrestru wedi eu ffrydio'n fyw.

Gyda'r capasiti ychwanegol a gynigiwyd gan y grant RACHS, penderfynodd arweinwyr y gellid bwrw ymlaen â'r holl ddigwyddiadau a nodwyd ar y calendr, p'un a oedd hynny wyneb yn wyneb neu'n rhithwir. Rhoesant y cyfrifoldeb i ddysgwyr am gynllunio, trefnu a chynnal y digwyddiadau. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys eisteddfod ysgol, cystadlaethau siarad cyhoeddus, gweithgareddau hwyliog fel cystadleuaeth bobi, cystadlaethau rhwng dysgwyr a staff, podlediadau, noson agored ar gyfer darpar fyfyrwyr chweched dosbarth a sesiynau ioga a ffitrwydd. Ar Ddydd Gŵyl Dewi, recordiodd grŵp o fyfyrwyr chweched dosbarth sesiwn lle buont yn trafod beth roedd yn ei olygu iddynt fod yn rhan o Gymru Gymraeg yn 2021. Hefyd, creodd dysgwyr gyfrif cyfryngau cymdeithasol chweched dosbarth i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn derbyn newyddion, bwletinau ysgol, gwybodaeth am ddiwrnodau agored, ac ati.

Roedd dysgwyr yn werthfawrogol iawn o'r ffordd roedd yr ysgol wedi cefnogi eu medrau Cymraeg. Fe wnaethant fwynhau cymryd rhan mewn digwyddiadau ysgol gyfan yn fawr, ac yn teimlo eu bod wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt gynnal eu rhuglder.

## Rôl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

21 Gan amlaf, dyrannwyd y cyllid ychwanegol i ysgolion gan awdurdodau lleol. Ym mhob achos, dosbarthwyd y grant yn unol â nifer y dysgwyr yn y chweched dosbarth. Mewn rhai achosion, cynigiodd consortia rhanbarthol gefnogaeth gref i ysgolion a rhieni trwy ddigwyddiadau ar-lein.

**Cameo – Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA): Cynnig digwyddiadau dysgu proffesiynol i gefnogi cynnydd a lles dysgwyr yn ystod y pandemig**

Cynhaliodd y GCA sawl digwyddiad byw a digwyddiadau wedi'u recordio ar y we yn canolbwyntio ar strategaethau i gefnogi'r holl ddysgwyr yn ystod y pandemig, yn cynnwys digwyddiadau ar-lein ar gyfer rhieni. Roedd y digwyddiadau hyn yn cwmpasu agweddau fel:

- datblygu medrau meddwl dysgwyr ar lefel uwch
- cefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr
- sut i ymgysylltu â dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio
- cefnogi ceisiadau i brifysgol
- datblygu medrau llafaredd dysgwyr
- cefnogi dysgwyr mwy abl
- cefnogi cyfnod pontio dysgwyr o Flwyddyn 11 i'r chweched dosbarth

Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan nifer dda, a rhoesant strategaethau gwerthfawr i staff a rhieni i gefnogi cynnydd dysgwyr mewn dysgu a'u lles yn ystod y pandemig.

22 Mewn llawer o achosion, cafodd ysgolion drafodaethau adeiladol â'u hymgynghorwyr her / partneriaid gwella ysgolion am y modd mwyaf cynhyrchiol o wario'r cyllid ychwanegol. Roedd cyfarfodydd rhwng uwch arweinwyr a chynrychiolwyr o'r consortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol yn rheolaidd ac adeiladol. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ymddiried mewn ysgolion i wario'r grant mewn unrhyw ffordd roeddent yn ei gweld yn addas, tra'n blaenoriaethu eu cysylltiadau ag ysgolion roeddent eisoes yn eu targedu am gymorth.

23 Roedd gan arweinwyr mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol weledigaeth gyffredin o sut i wario'r grant a oedd yn gydnaws â gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, megis dechrau datblygu y mae'r prosesau ar gyfer gwerthuso effaith y gwariant ychwanegol. Mewn ychydig o achosion, meddyliodd arweinwyr yn ofalus am sut gallent werthuso'r gwariant ychwanegol (gweler astudiaeth achos y GCA).

**Cameo – GCA: Defnyddio canfyddiadau o ymchwil i arwain gwariant ychwanegol**

Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cynigiodd y GCA gymorth dra ystyriol i ysgolion yn eu defnydd o'r grant RACHS. Rhoddodd arweinwyr arweiniad i ysgolion ar geisio cytundeb gyda'u llywodraethwyr, ac ar sut i gyhoeddi eu cynllun gwariant ar wefan yr ysgol. Yn ychwanegol, rhoesant ystod o strategaethau i ysgolion i gefnogi dysgu a lles dysgwyr, a gymerwyd o becyn cymorth y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) (2018). Mae'r offeryn hwn yn annog ac yn hyrwyddo gweithgareddau y dangosodd ymchwil eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar ddysgu. Hefyd, mae'r GCA wedi darparu ystod gynhwysfawr o adnoddau dysgu proffesiynol ac adnoddau ategol, yn cynnwys rhannu dulliau ysgol. Trwy ddefnyddio'r 'offeryn mapio grantiau', gall ysgolion fonitro eu gwariant ar adnoddau a dangos llwyddiannau cynnar. Mae'r strategaeth hon yn darparu ymagwedd gydlynus at ganolbwyntio ar wariant ysgolion a dull defnyddiol o asesu ansawdd y cynllunio mewn gwahanol ysgolion.

### Sut gwerthusodd arweinwyr ysgolion effaith y grant RACHS ar gyfer dysgwyr ôl-16

24 Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr wedi ceisio gwerthuso effaith y staffio ychwanegol a ddarperir gan y grant RACHS. Pan oedd y gwerthuso hwn yn fwyaf llwyddiannus, rhoddodd arweinwyr ystyriaeth ofalus i'r deilliannau dymunol ar gyfer unrhyw wariant ychwanegol o'r cychwyn. Yn gyffredinol, roedd yr arweinwyr hyn yn olrhain agweddau fel y canlynol yn rheolaidd:

- cynnydd dysgwyr yn unol â thargedau mewn pynciau unigol
- ymgysylltiad dysgwyr â gwaith a osodwyd (yn cynnwys cwblhau tasgau, ansawdd y gwaith a gwblhawyd a lefelau'r rhyngweithio yn ystod gwersi wedi eu ffrydio)
- presenoldeb
- atgyfeiriadau i asiantaethau allanol

25 Hefyd, gofynnodd arweinwyr yn yr ysgolion hyn am farn dysgwyr a rhieni trwy

arolygon a chyfarfodydd anffurfiol. Yn gyffredinol, nid yw'r arweinwyr hyn wedi llunio adroddiadau hunanwerthuso estynedig. Yn hytrach, maent wedi gweithredu'n gyflym naill ai i ymestyn arferion a welsant yn fuddiol neu fireinio unrhyw ddarpariaeth yn sgil anghenion y dysgwyr sy'n dod i'r amlwg. Yn gyffredinol, mae arweinwyr ysgolion yn teimlo na fyddai'n fuddiol defnyddio'r deilliannau o raddau wedi eu pennu gan ganolfannau i werthuso perfformiad gan na ellir eu cymharu â deilliannau mewn blynyddoedd blaenorol.

26 Nid yw ychydig o ysgolion wedi ceisio gwerthuso effaith y grant hwn. Nid oes gan arweinwyr yn yr ysgolion hyn strategaeth glir ar gyfer gwario'r grant na gweledigaeth ar gyfer yr hyn y gallai ei gyflawni.

**Cameo – Ysgol Dyffryn Aman: Gwerthuso effaith gwaith yr ysgol yn ystod y pandemig**

Pan gawsant y grant RACHS, cyfarfu'r uwch dîm i gytuno a gosod ystod o ddangosyddion y gallent eu defnyddio i fesur effaith unrhyw wariant ychwanegol. Yn y chweched dosbarth, roedd hyn yn cynnwys cyflawniad a phresenoldeb dysgwyr, a'u hymgysylltiad â gwaith, a nifer yr atgyfeiriadau i asiantaethau allanol.

Hefyd, cynhaliodd yr uwch dîm arweinyddiaeth arolygon rheolaidd i gasglu barn dysgwyr a rhieni am y ddarpariaeth a gafodd dysgwyr. Yn ystod y cyfnod clo, rhoddwyd cyfle i'r holl ddysgwyr a'r rhieni lenwi holiadur ynghylch 'Lles a Gweithio o Gartref' yn gofyn am y ddarpariaeth ar-lein, yn ogystal â'u lles. Canolbwyntiodd yr holiaduron i rieni ar ansawdd y ddarpariaeth gyffredinol a gwerth sesiynau cofrestru, sesiynau "galw i mewn" a gwasanaethau wythnosol. Gwerthuswyd y deilliannau o'r holiaduron hyn, a gwnaeth arweinwyr yn siŵr fod cymorth priodol ar gael i ddysgwyr oedd angen cymorth ychwanegol.

Ymatebodd uwch arweinwyr i ganfyddiadau o'u gwerthusiadau mewn sawl ffordd, yn cynnwys:

- cynnal sesiynau byw ar gyfer meysydd pwnc penodol
- addasu'r ddarpariaeth ar-lein i ganiatáu mwy o ryngweithio
- lleihau hyd gwersi byw
- sicrhau egwyl rhwng gwersi i gefnogi lles dysgwyr
- lleihau hyd y diwrnod ar-lein i alluogi staff i gynnig adborth teilwredig ac amserol i ddysgwyr, a pharatoi adnoddau digidol defnyddiol
- cynnig sesiynau mentora i ddysgwyr bregus a darparu amser i aelodau o'r uwch dîm estynedig arwain hyn
- cynnig cymorth gan gynorthwywyr addysgu i ymweld â dysgwyr gartref
- ehangu darpariaeth gwnsela'r ysgol
- darparu sesiynau rhithwir ar gyfer rhieni i godi ymwybyddiaeth am beryglon y rhyngrwyd yn ystod y cyfnod clo

**Cameo – Coleg Cymunedol y Dderwen: Gwrando ar ddysgwyr**

Mae'r ysgol wedi cynnwys dysgwyr mewn llawer o'r penderfyniadau allweddol y mae'r ysgol wedi eu gwneud eleni. Trwy wneud defnydd rheolaidd o arolygon, cyfarfodydd â grwpiau ffocws a dysgwyr unigol, roedd yr ysgol yn gallu nodi

anghenion lles a’r bylchau yn nysgu’r dysgwyr o ganlyniad i gyfnodau pan na allai dysgwyr fynychu. Helpodd y rhain yr ysgol i sefydlu ei blaenoriaethau ar gyfer tymor yr hydref. Hefyd, mae gweithgareddau rheolaidd llais y dysgwr wedi cael eu defnyddio i werthuso’r ddarpariaeth a nodi sut roedd angen addasu’r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, yn sgil trafodaethau llais y dysgwr a thrafodaethau â rhieni yn ystod y cyfnod dysgu o bell, hysbyswyd yr ysgol bod baich gwaith yn destun pryder mawr, felly trefnodd yr ysgol i neilltuo un diwrnod ‘Dal i fyny â dysgu’ bob wythnos lle nad oedd unrhyw waith newydd yn cael ei osod, ond roedd athrawon ar gael o hyd yn ystod slotiau amserlenedig i ateb unrhyw gwestiynau gan y dysgwyr.

## 2 Sut defnyddiodd arweinwyr mewn colegau addysg bellach y grant dal i fyny

27 Mae colegau wedi derbyn sawl grant i gynorthwyo dysgwyr yn ystod y pandemig. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn debyg i'r rhai a gafodd ysgolion trwy eu hawdurdodau lleol. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw arweinwyr wedi cyfeirio grantiau penodol at ddibenion penodol. Yn hytrach, maent wedi mynd ati i asesu anghenion eu dysgwyr yn gyntaf, a chynllunio darpariaeth i'w cynorthwyo mewn unrhyw ffordd sy'n angenrheidiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae arweinwyr wedi cyfrif am wariant grant penodol yn ôl-weithredol. Ym mhob achos, mae uwch arweinwyr wedi cynnwys eu corff llywodraethol yn agos, er nad ydynt bob amser wedi ceisio cymeradwyaeth am benderfyniadau amrywiol fel y byddent mewn amgylchiadau arferol. Mewn ychydig o achosion, maent wedi gofyn i arweinwyr canol wneud cynnig am gymorth ychwanegol a gwariant dirprwyedig ychwanegol iddynt. Dyrannodd arweinwyr mewn ychydig o golegau gyllid i sicrhau cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyn cyhoeddi unrhyw grantiau yn gysylltiedig â'r pandemig. Oherwydd hyn, fe wnaethant allu cynyddu eu staffio yn gyflym.

28 Mae colegau addysg bellach yn cynnig ystod ehangach o gyrsiau ar gyfer dysgwyr ôl-16 nag ysgolion. Mae cyfran y dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol yn fwy nag ydw mewn ysgolion. Yn aml, mae angen mwy o gymorth ar ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol o gymharu â dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch, oherwydd natur uniongyrchol eu gwaith a'u hasesiadau. Mae amrywiad eang yn natur y cymorth sydd ei angen ar draws cyrsiau galwedigaethol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr mewn colegau wedi targedu cymorth ychwanegol tuag at y grwpiau canlynol:

- **Dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Mynediad at Addysg Uwch.** Mewn llawer o achosion, dangosodd y grŵp hwn o ddysgwyr y cynnydd uchaf mewn lefelau dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i'w cwrs. Yn ystod y pandemig, roedd y dysgwyr hyn yn ei gweld yn anodd iawn cyfuno eu hastudiaethau oherwydd y pwysau cynyddol o ran cyflogaeth ac anawsterau â gofal plant.
- **Dysgwyr sy'n dilyn y cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill**. Roedd y dysgwyr hyn yn ei chael yn anodd dod i'r coleg, roedd llawer ohonynt yn nerfus ynglŷn â defnyddio cludiant cyhoeddus a chymysgu â dysgwyr eraill. Hefyd, cafodd y grŵp hwn anhawster yn cael mynediad at ddysgu o bell, o ganlyniad i ddiffyg dyfeisiau TGCh, anawsterau cysylltu â'r rhyngrwyd, ac oherwydd eu medrau Saesneg cyfyng.
- **Y dysgwyr mwyaf bregus**, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, risgiau diogelu a'r rhai o ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd. Yn aml, roedd angen cymorth personol, cymorth ariannol a chymorth ag adnoddau eraill ar gyfer bywyd a dysgu ar y dysgwyr hyn.
- **Dysgwyr ar gyrsiau trwydded ymarferol i ymarfer.** Roedd y rhain yn arbennig mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu gan eu bod yn cael llai o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ymarferol, ac ni chwblhaodd lleiafrif ohonynt eu cyrsiau yn 2019-2020.
- **Dysgwyr yn dilyn cyrsiau Safon Uwch** – yn enwedig lle tarfwyd yn sylweddol ar

ddysgu'r dysgwyr hyn o ganlyniad i gau ysgolion pan oeddent ym Mlwyddyn 11.

29 Roedd angen penodol am staff ychwanegol mewn meysydd dysgu galwedigaethol penodol oherwydd gofynion llym ar gyfer arferion gweithio diogel ar y safle. Roedd hyn yn arbennig o wir am gyrsiau peirianneg ac adeiladu lle wnaeth y rheoliadau COVID-19 cyfyngu ar bresenoldeb dysgwyr a'r ffordd gaethon nhw eu addysgu. O ganlyniad, roedd y cyrsiau hyn yn gofyn am staff addysgu, staff technegol a staff cymorth dysgu ychwanegol.

30 Gwelodd dysgwyr a oedd yn cymryd rhan yn y celfyddydau perfformio fod dysgu yn ystod y cyfnod clo yn hynod heriol gan eu bod wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda phobl eraill, ac nid oeddent bob amser yn cael cyfle i ddefnyddio'r cyfarpar penodol neu'r gofod angenrheidiol i ddatblygu eu medrau. Cyn y cyfnod clo ym mis Ionawr 2021, roedd colegau wedi datblygu atebion ar gyfer y dysgwyr hyn a oedd yn cynnwys lliniaru helaeth i sicrhau diogelwch y staff a'r dysgwyr i alluogi gwaith ymarferol, wyneb yn wyneb i ddigwydd.

**Cameo – Grŵp Colegau NPTC: Darparu cyfle i ddysgwyr gymryd rhan mewn perfformiad dawnsio byw**

Fel arfer, mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau (Dawns Safon Uwch, BTEC Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio (Dawns), BTEC Lefel 3 Ymarfer y Celfyddydau Perfformio (Dawns) a BTEC Lefel 3) yn y Celfyddydau Cynhyrchu yn cydweithio i greu a pherfformio cynhyrchiad theatrig blynyddol. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2020, caewyd yr holl theatrau, a daeth perfformiadau cyhoeddus i ben.

Gweithiodd staff yn agos â thîm Iechyd a Diogelwch y coleg, i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau diogelwch staff a dysgwyr er mwyn gallu gwneud gwaith dawns ymarferol, wyneb yn wyneb mewn lleoliad theatr.

Defnyddiodd y coleg wasanaethau gwneuthurwr ffilmiau proffesiynol i gofnodi perfformiad byw y dysgwyr a'i ddarlledu ar draws y rhyngrwyd. Cyfrannodd y gwaith perfformio yn gryf at ddatblygu medrau'r myfyrwyr dawns, a ffurfiodd ran o'r portffolio tystiolaeth ar gyfer y cyrsiau Dawns BTEC Lefel 3.

31 Mae rhai materion wedi bod yn anodd eu trin. Er enghraifft, mae yna heriau sylweddol â lleoliadau gwaith, yn enwedig yn y sector gofal. Nid oedd llawer o ddysgwyr gofal plant Lefel 2 yn gallu cwblhau eu horiau lleoliad yn 2019 – 2020, ond caniatawyd iddynt fynd ymlaen i ddilyn cyrsiau Lefel 3 yn 2020 - 2021. Mae'n destun pryder i arweinwyr nad ydynt wedi gallu cwblhau eu lleoliadau eleni o hyd.

32 Yn aml, defnyddiodd arweinwyr y grant dal i fyny trwy gynnig goramser i staff a oedd eisoes yn cael eu cyflogi gan y coleg. Mewn llawer o golegau, roedd hyn yn cynnwys staff glanhau. Fel mewn ysgolion, roedd arweinwyr yn ei chael yn anodd penodi staff ychwanegol ar fyr rybudd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn rhai meysydd pwnc fel peirianneg, adeiladu a'r gwyddorau. Fodd bynnag, meddyliodd ychydig o arweinwyr yn ddwys am y mater hwn, gan arwain at atebion creadigol (gweler Cameo Coleg Penfro). Gan amlaf, defnyddiodd colegau'r grant trwy:

**Ddarparu sesiynau 'dal i fyny' ychwanegol**. O ganlyniad i darfu ar eu dysgu, roedd bylchau ym medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr, a

greodd rwystr rhag eu dysgu yn y dyfodol. Mewn llawer o achosion, darparodd colegau wersi ychwanegol ar gyfer grwpiau o ddysgwyr neu sesiynau tiwtorial un i un i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Yn ychwanegol, fe wnaeth lleiafrif o golegau ailgynllunio ac ymestyn eu rhaglenni ymsefydlu i baratoi dysgwyr ar gyfer gofynion penodol eu cyrsiau. Estynnodd ychydig o golegau hyd eu diwrnod addysgu i ganiatáu ar gyfer sesiynau dal i fyny. Mewn llawer o achosion, cynigiodd colegau hyfforddiant ac arweiniad un i un ar-lein i ddysgwyr a oedd yn cael trafferthion ag agweddau penodol ar y cwrs. Mewn ychydig o achosion, cafodd dysgwyr eu harwain at gyrsiau eraill a oedd yn gweddu i'w medrau a'u diddordebau penodol yn well o ganlyniad i'r rhyngweithio hwn.

**Cynnig sesiynau ychwanegol ar gyfer asesiadau ymarferol.** Ar gyfer ychydig o gyrsiau, roedd colegau'n gallu addasu eu gwaith cwrs neu'u hasesiadau a reolir pe baent yn cael eu cynnal o bell. Fodd bynnag, mewn llawer o gyrsiau galwedigaethol fel gwaith plymer, roedd yn amhosibl addasu'r asesiadau yn y modd hwn. Defnyddiwyd cyfran o'r grant ym mhob un o'r colegau i ddarparu capasiti ychwanegol i gynnal yr asesiadau hyn trwy gadw pellter cymdeithasol i fodloni canllawiau COVID-19.

**Darparu capasiti ychwanegol i olrhain a chefnogi lles dysgwyr.** Mewn llawer o achosion, creodd arweinwyr colegau swyddi cymorth arbenigol i gryfhau eu gweithdrefnau olrhain a monitro er mwyn darparu arweiniad a chymorth targedig i ddysgwyr unigol. Roedd yr aelodau staff hyn yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr, yn enwedig y rhai o grwpiau bregus. Galluogodd hyn y colegau i nodi'r anghenion datblygol grwpiau penodol o ddysgwyr, a darparu cymorth ychwanegol ar eu cyfer. Er enghraifft, o ganlyniad i fonitro dysgwyr yn agos, nododd staff cymorth arbenigol yng Ngrŵp Colegau NPTC fod gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn grŵp blaenoriaeth.

**Cameo – Grŵp Colegau NPTC: Ysbrydoli dysgwyr trwy gyfres o 'ddosbarthiadau meistr' ar-lein**

Cynhaliodd y coleg gyfres o sesiynau rhithwir gan siaradwyr gwadd ar draws yr holl gymwysterau yn yr ysgol gwallt a therapïau cymhwysol.

Cyflwynwyd dosbarth meistr ar gyfer yr holl gyrsiau trin gwallt gan arbenigwr o'r diwydiant mewn steiliau trin gwallt yn ymwneud â 'gwallt i fyny' a steiliau gwallt priodferch. Cafodd arddangosiadau ymarferol eu gweddu i lefel y cymhwyster, ac roedd cyfle i'r dysgwyr ofyn cwestiynau yn gysylltiedig â'r diwydiant i'r siaradwr gwadd.

Hefyd, mynychodd dysgwyr therapi harddwch ddosbarth meistr rhithwir yn gysylltiedig â'r diwydiant, a ddangosodd fedrau mewn estyniadau i'r ewinedd, gan ymestyn a herio'r technegau roeddent eisoes wedi eu meistroli ymhellach.

Cafodd dysgwyr therapi chwaraeon ar lefel 3 ddosbarth meistr gan gyn-fabolgampwr o'r Gemau Olympaidd a siaradodd am adsefydlu ar ôl anafiadau chwaraeon, ac effaith hyn ar fabolgampwyr proffesiynol.

Cafodd dysgwyr colur theatrig lefel 3 a therapi cymhwysol lefel 3 ddosbarth meistr ar sut i ddefnyddio colur brwsh aer diffiniad manwl gyda thechnegau uwch ar gyfer celf yr wyneb a'r corff. Hefyd, cafodd y dysgwyr colur theatrig ac effeithiau

arbennig ddosbarth meistr arbenigol gan siaradwr gwadd ar golur prosthetig yn y diwydiant teledu a ffilm.

Gwelodd dysgwyr y digwyddiadau hyn yn hynod ddifyr ac ysbrydoledig. Dywedont eu bod wedi dysgu llawer trwy ryngweithio â'r siaradwyr, a'u bod wedi cael llawer o wybodaeth i'w helpu i wneud dewisiadau am yrfa yn y dyfodol.

**Cameo – Coleg Penfro: Recriwtio staff ar draws ardal ddaearyddol eang**

Arweiniodd pandemig COVID-19 at ofynion staffio ychwanegol sylweddol i'r coleg. Deilliodd y rhain o'r angen i ddisodli aelodau staff nad oeddent yn gallu gweithio, a'r gofyniad i ehangu capasiti addysgu nid yn unig i ddarparu tiwtora ychwanegol ar gyfer dysgwyr, ond hefyd tiwtora mewn grwpiau llai, trwy gadw pellter cymdeithasol. Roedd cael gwasanaethau aelodau staff ychwanegol i alluogi hyn yn heriol i ddechrau, yn sgil natur wledig a phrin ei phoblogaeth yr ardal.

Ar ôl adolygu'r tebygolrwydd y bydd y coleg yn mabwysiadu cyflwyno ar-lein ar ôl diwedd y pandemig, penderfynodd uwch arweinwyr ehangu amodau eu hymdrech recriwtio staff i ganiatáu ar gyfer gweithio o bell.

Hysbysebodd y coleg am staff addysgu newydd ar draws ardal ddaearyddol eang, gan roi'r opsiwn i ymgeiswyr weithio o bell.

Mae'r coleg o'r farn fod hwn wedi bod yn ddatblygiad llwyddiannus. Yn y gorffennol, mae arweinwyr canol wedi ei chael yn anodd recriwtio staff arbenigol yn gyflym, yn enwedig ar gyfer penodiadau cyfnod penodol. Yn ystod y cyfnodau clo, mae aelodau staff sy'n gweithio o bell wedi darparu addysgu mewn Bioleg A2; Mathemateg a Mathemateg Bellach UG ac A2; Mathemateg TGAU; Gwyddoniaeth Gymhwysol BTEC; Sbaeneg UG ac A2; a'r Gyfraith A2 ac UG. Mae'r darlithwyr ar-lein hyn wedi eu lleoli ar draws gwahanol ardaloedd yn ne Cymru. Ni fyddent fel arfer wedi bod ar gael i'r coleg, yn enwedig ar gyfer yr oriau rhan amser a gynigir, ac oherwydd y pellter rhwng y coleg a'u cartrefi.

Ma'r dull hwn wedi gwneud rheoli'r drefn o gyflenwi yn ystod absenoldeb staff yn fwy effeithlon, gan arwain at brofiad dysgu gwell i ddysgwyr. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn hyderus y gallant sicrhau gwasanaethau athrawon cymwys, arbenigol hyd yn oed ar gyfer penodiadau tymor byr, sydd wedi bod yn anodd iawn yn y gorffennol.

## Gweithio mewn partneriaeth

33 Ym mhob achos, gweithiodd colegau'n agos ag ystod eang o bartneriaid i sicrhau bod dysgwyr yn cael gofal, cymorth ac arweiniad priodol. Roedd y rhain yn cynnwys ysgolion, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cwnsela, rhwydweithiau iechyd a diogelwch, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Mewn llawer o achosion, esblygodd y partneriaethau hyn dros gyfnod wrth i anghenion dysgwyr newid, er enghraifft pan ddechreuodd dysgu ddigwydd ar-lein yn bennaf ym mis Ionawr 2021.

34 Yn benodol, mae'r rhwydweithiau a gefnogir gan Colegau Cymru wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan arweinwyr colegau ledled Cymru. Mae'r ystod o rwydweithiau wedi galluogi'r rhai sydd â rolau tebyg mewn gwahanol golegau i gydweithio er mwyn goresgyn yr heriau cyffredin y maent wedi eu hwynebu yn ystod y pandemig. Roedd staff a fynychodd y rhwydweithiau hyn yn cynnwys penaethiaid, cyfarwyddwyr cyllid, cyfarwyddwyr adnoddau dynol a chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn canolbwyntio ar agweddau fel addasiadau posibl i'r cwricwlwm, rhannu arfer dda, cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a datblygu adnoddau ar y cyd. Hefyd, hwylusodd y rhwydweithiau hyn ddeialog gynhyrchiol â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr o'r farn fod lefel gynyddol y cydweithio rhwng colegau wedi bod yn ganlyniad buddiol y pandemig.

### Cefnogi medrau Cymraeg dysgwyr

35 Mae llawer o golegau wedi ystyried yn ofalus sut i gefnogi medrau cyfathrebu Cymraeg dysgwyr. Mewn llawer o achosion, maent wedi neilltuo staff sy'n siarad Cymraeg i wirio lles dysgwyr sy'n siarad Cymraeg, a chynnig cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu Cymraeg.

36 Mewn ychydig o achosion, cafwyd darpariaeth sylweddol, dra ystyriol i gefnogi medrau Cymraeg dysgwyr.

**Cameo – Coleg Caerdydd a'r Fro: Cefnogi medrau Cymraeg dysgwyr**

Ystyriodd arweinwyr yn ofalus sut i gefnogi medrau cyfathrebu Cymraeg dysgwyr trwy gydol y pandemig. Darparont lawer o gyfleoedd gwerthfawr, yn cynnwys:

- Cymorth un i un trwy gyfrwng y Gymraeg
- Dosbarthiadau Cymraeg ychwanegol ar gyfer cyrsiau gofal plant a chwaraeon
- Defnyddio hyrwyddwyr a llysgenhadon y Gymraeg i gynyddu sesiynau tiwtorial personol ar-lein i helpu â Chymraeg ysgrifenedig a llafar ar gyfer aseiniadau.
- Datblygu Y Ples Lles (clwb lles dwyieithog wedi'i arwain gan ddysgwyr)
- Cynyddu sesiynau cymorth ar-lein ar gyfer dysgwyr Gwasanaethau Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus cyfrwng Cymraeg yn benodol, ac ar gyfer yr holl adrannau yn gyffredinol
- Datblygu cymorth "galw i mewn" Cymraeg ar-lein ar gyfer dysgwyr, ac "Y Porth Cymraeg" ar gyfer dysgwyr

O ganlyniad i'r arloesi hwn, cofnododd y coleg fwy na 1,500 o achosion o ryngweithio gyda dysgwyr i gefnogi eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

## Sut gwerthusodd arweinwyr colegau effaith y grant dal i fyny

37 Daw cyllid i golegau trwy sawl grant gwahanol. Yn gyffredinol, maent wedi defnyddio'r rhain gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi ei chael yn anodd ynysu effaith y grant dal i fyny. Fodd bynnag, mae pob coleg wedi cynnal gwerthusiadau o effaith gyffredinol eu darpariaeth yn ystod y pandemig. Yn yr un modd ag arweinwyr ysgolion, mae arweinwyr mewn colegau yn amharod i ddefnyddio'r deilliannau o raddau wedi eu pennu gan ganolfannau i werthuso perfformiad cymharol. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol cymharu'r deilliannau o'r rhain gyda pherfformiad y dysgwyr a ragwelwyd i roi syniad o effaith unrhyw gefnogaeth.

38 Yn gyffredinol, mae arweinwyr colegau wedi monitro cynnydd a lles dysgwyr yn agos trwy gydol y pandemig trwy arolygon myfyrwyr, data cadw, cwblhau gwaith a siarad â grwpiau ffocws dysgwyr. Fodd bynnag, teimlai llawer o arweinwyr ei bod yn rhy gynnar i lunio unrhyw gasgliadau o ystod arferol y gweithgareddau hunanwerthuso, fel arsylwadau gwersi a chraffu ar waith.

# 3 Casgliadau ac awgrymiadau ar gyfer gosod grantiau dal i fyny yn y dyfodol

39 At ei gilydd, gwerthfawrogodd arweinwyr ysgolion a cholegau y telerau y cynigiwyd y grantiau RACHS a dal i fyny iddynt. Yn benodol, roeddent yn teimlo bod yr hyblygrwydd a gynigiwyd iddynt yn ddefnyddiol. Er enghraifft, mewn ychydig o sefyllfaoedd trasig, defnyddiodd ysgolion rywfaint o'r cyllid ychwanegol i gynnig cwnsela i ddysgwyr adeg profedigaeth.

40 Mewn colegau, roedd nifer o wahanol grantiau, yr oedd nodau rhai ohonynt yn gorgyffwrdd, yn golygu ei bod yn gymhleth cynllunio ar gyfer gwario'r grantiau hyn. Teimlai'r holl arweinwyr mewn ysgolion fod y blaenoriaethau a amlinellir yn yr amodau ar gyfer gwario'r grant yn briodol. Mewn colegau, nid oedd yr amodau hyn yn berthnasol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, dyrannodd arweinwyr ysgolion a cholegau y grant mewn ffyrdd tebyg, gan flaenoriaethu'r un grwpiau. Ni wnaeth trafodaethau ag arweinwyr a dysgwyr amlygu model delfrydol cyffredinol ar gyfer gwario'r grantiau hyn. Mae'n ymddangos bod amrywiaeth o wahanol ddulliau wedi gweithio'n dda, ac yn gyffredinol, roedd dysgwyr mewn ysgolion a cholegau yn gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaed i gefnogi eu cynnydd a'u lles. Mewn ysgolion a cholegau lle roedd dysgwyr yn fwyaf cadarnhaol:

- roedd arweinwyr wedi gosod meini prawf clir ar gyfer gwario'r grant o'r cychwyn
- roedd staff yn monitro lles a chynnydd dysgwyr yn agos, gan addasu eu strategaethau a'u cymorth lle roedd angen
- roedd arweinwyr wedi meddwl yn greadigol am sut i gael staff ychwanegol
- roedd arweinwyr wedi dyrannu gwariant ychwanegol yn ystyriol i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr yn eu pynciau
- gwerthusodd arweinwyr effaith unrhyw wariant ychwanegol yn agos, a mireinio eu hymagwedd yn sgil canfyddiadau yn dod i'r amlwg
- roedd arweinwyr wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â rhwydweithiau dysgu proffesiynol i drafod a gwerthuso gwahanol fodelau

41 Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, roedd disgwyliad fod dysgwyr o gartrefi lle na siaredir Cymraeg yn cael cynnig cymorth ychwanegol o'r grant hwn. Mae hon yn agwedd roedd ei hangen yn fawr yn ystod cyfnod clo, oherwydd yn ystod y cyfnodau hyn, dywedodd dysgwyr wrthym nad oeddent yn cael llawer o gyfleoedd i glywed neu ymarfer yr iaith. Ym mhob un o'n cyfarfodydd â dysgwyr, dywedant fod eu medrau Cymraeg wedi dirywio, p'un a ydynt yn dod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith ai peidio. Ychydig o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn unig a roddodd ffocws cryf i fedrau cyfathrebu Cymraeg dysgwyr yn ystod y pandemig.

42 Mae'r arfer gorau a nodwyd yn yr arolwg hwn yn awgrymu y dylai grantiau yn y dyfodol alinio â'r egwyddorion canlynol:

- caniatáu digon o hyblygrwydd, yn cynnwys yn y graddfeydd amser, er mwyn i ddarparwyr allu addasu eu gwariant yn unol â'u hanghenion penodol
- dylai amodau penodol ar gyfer gwario'r grant fod yr un fath ar gyfer ysgolion a

cholegau
- sicrhau bod arweinwyr yn ystyried sut byddant yn olrhain effaith y gwariant ychwanegol ar les a chynnydd dysgwyr (gweler dangosyddion a awgrymir isod)
- mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, dylid ffocysu ar fedrau cyfathrebu dysgwyr yn Gymraeg, beth bynnag eu cefndir ieithyddol
- annog darparwyr i ystyried sut gallai modelau cydweithredol gefnogi dulliau a gynlluniwyd

43 Bydd llawer o'r dystiolaeth y mae angen i arweinwyr ei chasglu i lywio eu hunanwerthusiad yn ystod y pandemig yn deillio o drafodaethau â staff a dysgwyr. Dyma ychydig o ddangosyddion a allai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr eu hystyried, yn cynnwys:

- **presenoldeb dysgwyr**
- **lefelau ymgysylltu dysgwyr** megis, yr amser a dreuliwyd mewn gweithgareddau dysgu dan arweiniad, yn cynnwys unrhyw sesiynau dal i fyny, a'r graddau maent yn ymroi i drafodaethau a holi cwestiynau
- **tueddiadau cofrestru (o 2021 ymlaen)** – unrhyw newidiadau mawr yng nghyfran y dysgwyr sy'n newid eu meddyliau am y cyrsiau y maent wedi eu dewis (trosglwyddo neu dynnu'n ôl). Gallai cynnydd ddangos nad yw dysgwyr wedi gallu gwneud y dewisiadau dilyniant gorau posibl, efallai o ganlyniad i'r profiad astudio perthnasol cyfyngedig yn ystod y cyfnod clo. Gallai cynnydd mawr mewn trosglwyddiadau cynnar ddangos gwaith buddiol gan ddarparwyr wrth gynghori dysgwyr. Gallai cynnydd sylweddol mewn trosglwyddiadau hwyr neu achosion o dynnu'n ôl yn hwyr ddangos bod angen gwneud gwelliannau
- **cyfran y dysgwyr sy'n cymryd yn hwy na'r arfer i gwblhau eu hastudiaethau 16-19** – yn benodol, unrhyw gynnydd yng nghyfran y dysgwyr sy'n cymryd mwy na dwy flynedd (er i ryw raddau, gall hyn adlewyrchu ffactorau tu hwnt i reolaeth darparwr)
- **perfformiad dysgwyr yn unol â'u targedau**
- **data cyrchfannau** – unrhyw newidiadau i gyfran unrhyw grwpiau sy'n mynd ymlaen i astudio ar lefel uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth
- **newidiadau yng nghyfran y dysgwyr blaenorol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**
- **data cymwysterau dilynol** – a yw dysgwyr sydd wedi eu heffeithio gan y cyfnod clo yn mynd ymlaen i ennill cymwysterau yn y dyfodol fwy neu lai ar yr un lefel a dosbarthiad ag y byddai disgwyl iddynt fel arfer? Bydd hyn o bosibl yn dod yn fwy dibynadwy o 2022 ymlaen neu pan allai asesiadau a methodolegau graddio fod wedi dychwelyd i'r drefn arferol
- **arolygon dysgwyr** am eu profiad o addysg a hyfforddiant, lles, hunan-barch, optimistiaeth am y dyfodol
- **faint o amser cyswllt** y mae dysgwyr wedi'i gael i ymarfer eu Cymraeg a'u tueddiad i ddefnyddio'r iaith wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol neu'r coleg

**Cwestiynau i arweinwyr eu defnyddio i helpu i gynllunio ar gyfer gwario grantiau tebyg yn y dyfodol**

- Pa feini prawf ydych chi'n meddwl y dylai'r ysgol / coleg eu defnyddio i roi arweiniad wrth wario'r grant? Pa grwpiau o ddysgwyr neu bynciau y dylid eu

blaenoriaethu a pham? Sut y byddwch chi'n cynnwys dysgwyr yn y penderfyniadau hyn?
- Sut y bydd staff yn monitro lles a chynnydd dysgwyr? Pa fecanweithiau y dylai arweinwyr eu defnyddio i addasu eu strategaethau a'u cefnogi lle bo angen? Sut y byddwch chi'n cynnwys dysgwyr mewn unrhyw werthusiadau?
- Sut y byddwch chi'n penodi staff ychwanegol? A fyddai penodi staff ychwanegol i weithio o bell yn fuddiol / yn briodol?
- Sut allech chi weithio gydag ysgolion, colegau neu wasanaethau eraill i ddatblygu dull a rennir o ddefnyddio'r cyllid?
- Pa ddangosyddion y byddwch chi'n eu defnyddio i werthuso effaith unrhyw wariant ychwanegol? Sut y byddwch chi'n mesur unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'ch mentrau ar grwpiau penodol o ddysgwyr (er enghraifft, ar garfan cyfnod allweddol 3)? Sut ydych chi'n mynd i liniaru'r rhain?
- Beth yw goblygiadau unrhyw fentrau ar lwyth gwaith staff?
- Sut y bydd staff yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol i drafod a gwerthuso gwahanol ddulliau?

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn manteisio ar:

- ymweliadau rhithwir ag 17 ysgol uwchradd, 12 coleg addysg bellach, dau awdurdod lleol a 3 chonsortiwm rhanbarthol. Yn ystod yr ymweliadau hyn, cyfarfuom ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ymgynghorwyr her a grwpiau o ddysgwyr
- adolygiad o lenyddiaeth berthnasol, yn cynnwys polisïau a diweddariadau Llywodraeth Cymru, a llythyrau grant i ddarparwyr
- gwybodaeth o ymgysylltu rheolaidd Estyn ag ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

## Ysgolion yr ymwelwyd â nhw:

Coleg Cymunedol Y Dderwen – awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Calon Cymru – awdurdod lleol Powys
Ysgol Cil-y-coed – awdurdod lleol Sir Fynwy
Ysgol Dyffryn Aman – awdurdod lleol Sir Gâr
Ysgol Dyffryn Conwy – awdurdod lleol Conwy
Ysgol Friars – awdurdod lleol Gwynedd
Ysgol Glantaf – awdurdod lleol Caerdydd
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda – awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gyfun Gŵyr – awdurdod lleol Abertawe
Ysgol Idris Davies - awdurdod lleol Caerffili
Ysgol Penglais – awdurdod lleol Ceredigion
Ysgol Uwchradd Bedwas – awdurdod lleol Caerffili
Ysgol Uwchradd Brynteg – awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Uwchradd Cantonian – awdurdod lleol Caerdydd
Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd - awdurdod lleol Sir Benfro
Ysgol Uwchradd Y Fflint – awdurdod lleol Sir y Fflint
Ysgol y Preseli – awdurdod lleol Sir Benfro

## Colegau yr ymwelwyd â nhw:

Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant
Coleg Gwent
Coleg Gŵyr
Coleg Penfro
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Coleg Y Cymoedd
Grŵp Colegau NPTC
Grŵp Llandrillo Menai
Y Coleg, Merthyr

## Awdurdodau lleol

Awdurdod lleol Abertawe
Awdurdod lleol Ceredigion

## Consortia rhanbarthol

ERW
GCA
GwE

# Atodiad 2: Amserlen y digwyddiadau a effeithiodd ar ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau o fis Mawrth 2020

### Mawrth 2020

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai ysgolion a cholegau yn cau i'r holl ddysgwyr ac eithrio plant gweithwyr allweddol.

### Mehefin 2020

Croesawodd pob ysgol a choleg ddysgwyr o bob grŵp blwyddyn yn ôl i'r ystafell ddosbarth am gyfnodau cyfyngedig yn ystod yr wythnos, gyda thraean o ddysgwyr yn unig yn yr ysgol ar unrhyw adeg benodol.

### 8 Gorffennaf 2020

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o £29 miliwn i ddarparu staff ychwanegol er mwyn cefnogi dysgwyr mewn ysgolion o fis Medi 2020.

### Awst 2020

Rhoddwyd cyllid cyfatebol i ddosbarthiadau chweched a cholegau ar ffurf y grant RACHS neu'r grant dal i fyny AB, yn y drefn honno. Cynrychiolodd hyn gynnydd o 5% yn gyffredinol ar gyfer y darparwyr hyn ar gyfer pob myfyriwr yn dechrau ar ei gwrs Safon Uwch neu gwrs galwedigaethol mewn coleg AB neu chweched dosbarth.

### Medi 2020

Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai tymor yr hydref yn dechrau ar 1 Medi ac y dylai ysgolion a cholegau a oedd yn gallu lletya'r holl ddysgwyr o ddechrau'r tymor wneud hynny. Bu cyfnod o hyblygrwydd wrth gydnabod y gallai ysgolion fod eisiau canolbwyntio ar grwpiau blwyddyn blaenoriaeth, fel y rhai oedd yn newydd i ysgolion uwchradd, y rhai oedd yn sefyll arholiadau'r haf nesaf neu'r rhai mewn dosbarthiadau derbyn. Byddai'r hyblygrwydd hwn hefyd yn caniatáu hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw waith cynllunio ac ad-drefnu.

### Hydref 2020

Cyhoeddodd y Prif Weinidog gyfnod atal byr y coronafeirws am bythefnos i Gymru, yn dechrau am 6pm ddydd Gwener, 23 Hydref a chan ddod i ben ddydd Llun 9 Tachwedd. Cwmpasodd y cyfnod hwn y gwyliau hanner tymor ar gyfer ysgolion a gynhelir a cholegau yng Nghymru a'r wythnos yn dechrau ddydd Llun 2 Tachwedd 2020. Yn ystod yr wythnos hon, parhaodd mwyafrif helaeth y dysgwyr ym Mlynyddoedd 9 ac yn uwch â'u dysgu o gartref.

### 14 Rhagfyr 2020

Symudodd yr holl ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach i addysgu ar-lein.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bolisi hyblyg ynglŷn ag ysgolion yn dychwelyd ar gyfer tymor y gwanwyn; gallai rhai ysgolion ddychwelyd yn llawn erbyn 6 Ionawr, ac ysgolion eraill erbyn 11 Ionawr.

### Ionawr 2021

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai ysgolion a cholegau yng Nghymru yn aros ar gau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr tan ar ôl hanner tymor mis Chwefror.

Estynnodd y Prif Weinidog y cyfnod clo rhybudd lefel 4 am dair wythnos arall.

### Chwefror 2021

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai yna £29 miliwn yn ychwanegol ar gyfer colegau, yn cynnwys £26.5 miliwn i gefnogi dysgwyr ar raglenni dysgu galwedigaethol.

Dychwelodd rhai dysgwyr galwedigaethol i'r coleg ar ôl y gwyliau hanner tymor.

### Mawrth 2021

Dysgwyr mewn blynyddoedd cymwysterau (Blwyddyn 10 – Blwyddyn 13), a mwy o ddysgwyr mewn colegau a hyfforddiant yn dychwelyd i ddysgu ar y safle.  Cynigiwyd hyblygrwydd i ddarparwyr i rai dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 12 ddychwelyd. Hefyd, rhoddwyd yr hyblygrwydd i ysgolion uwchradd ddarparu cyfle i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 'ailgydio' gan ganolbwyntio ar gymorth ar gyfer lles a pharodrwydd ar gyfer dychwelyd i'w dysgu ar y safle ar ôl y Pasg.

### 12 Ebrill 2021

Dychwelodd pob ysgol i addysgu wyneb yn wyneb.  Mabwysiadodd colegau addysg bellach ddull dysgu cyfunol.

# Atodiad 3: Egwyddorion yr amlinellodd Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion i arwain eu gwariant

Cyflwynwyd yr egwyddorion canlynol i ysgolion i arwain eu gwariant o'r grant RACHS. (Llywodraeth Cymru, 2020a https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html)

## Egwyddor 1: Y Dysgwyr sydd â'r Angen Mwyaf: Y Carfannau yr Effeithiwyd Arnynt

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos mai'r carfannau sydd wedi eu heffeithio fwyaf yw:

1. Dysgwyr yn paratoi ar gyfer arholiadau ym mlynyddoedd academaidd nesaf 11, 12 ac 13 (Nodyn i Benaethiaid ysgolion â dosbarthiadau chweched - yn ogystal â'r adnodd y cyfeirir ato yma, cynyddwyd cyllid chweched dosbarth i ddiwallu anghenion Blynyddoedd 12 ac 13 - mae'r un egwyddorion yn berthnasol i'r ddwy set o gyllid) sy'n cael cyfnod cymharol fach rhwng dychwelyd i'r ysgol a sefyll arholiadau cyhoeddus sy'n pennu eu cyfleoedd mewn bywyd
2. Plant bregus a phlant dan anfantais, fel y diffinnir gan ystod o ddulliau, ond yn cynnwys y plant a'r teuluoedd tlotaf, dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn aelwydydd di-Gymraeg
3. Blwyddyn 7, oherwydd y tarfu ar y cyfnod pontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd

Mae'r dadansoddiad uchod o garfannau yn unol â chanfyddiadau llawer o wledydd a thiriogaethau eraill sydd â nodweddion tebyg i Gymru, wedi llywio'r drefn o ddyrannu cyllid, a bydd yn llywio'r grwpiau blaenoriaeth rydym yn disgwyl iddynt gael eu cyfeirio gan y gwaith a wnawn ni.  Ond dylem nodi y bydd yna unigolion nad ydynt yn y grwpiau hyn y bydd angen cymorth arnynt, ac mae'n egwyddor bwysig y bydd Penaethiaid yn penderfynu pa grwpiau ac unigolion a fydd yn cael cymorth.

## Egwyddor 2: Y Cwricwlwm ar gyfer Recriwtio, Gwella a Chodi Safonau: Meysydd Lle y Dylai Dysgwyr Gael Cymorth

I gyflawni'r uchelgeisiau a amlinellwyd gennym yn Cenhadaeth Ein Cenedl (Llywodraeth Cymru, 2017), mae diwygio'r cwricwlwm yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog gennym ar gyfer addysg yng Nghymru.  Mae'n hanfodol bod ein holl waith â'r system addysg yng nghyd-destun COVID-19 yn cyd-fynd ag arfer orau ryngwladol, sydd hefyd yn sail i'n cynigion diwygio'r cwricwlwm.  Dyma fydd ein ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn cwricwlwm eang a chytbwys – ar gyfer y blynyddoedd arholi, bydd hyn yn cynnwys medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel uwch, mathemateg ar lefel uwch, lle bo'n berthnasol, a chymhwysedd digidol ar y lefel briodol, ac fel y mae'n berthnasol i ddysgwyr sy'n gwneud cynnydd â'u cymwysterau

- Datblygu medrau dysgu annibynnol, i alluogi a chymell dysgwyr ym mhob grŵp i wneud cynnydd carlam trwy weithio'n fwy effeithiol ar eu pennau eu hunain a'r tu allan i'r ysgol
- Cymorth ac ymgysylltu trwy hyfforddi – mae hyn i gydnabod y bydd angen cymorth hyfforddi a chymorth emosiynol ar y rhan fwyaf o ddysgwyr sydd wedi ymddieithrio, yn ogystal â chymorth i baratoi ar gyfer arholiadau a medrau

Bydd y ffocws hwn yn hynod berthnasol ar gyfer y carfannau blaenoriaeth. Byddwn yn gweithio'n agos â Cymwysterau Cymru i sicrhau bod ein hymagwedd at y cwricwlwm a dysgu yn gyson ac yn hyrwyddo hygrededd a dilysrwydd cyfres arholiadau 2021.

### Egwyddor 3: Ehangu Capasiti: Yr Hyn y Bwriedir i'r Cyllid ei Ddarparu

Rydym yn ymateb i'r sefyllfa trwy neilltuo adnoddau ariannol i greu capasiti newydd yn y system. Cyfanswm y buddsoddiad yw tua £29 miliwn, a bydd hyn yn ddigon i ehangu capasiti yn y system gan yr hyn sydd gyfwerth â 600 o athrawon a 300 o gynorthwywyr addysgu. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn defnyddio ein buddsoddiad presennol mewn Dysgu Proffesiynol, seilwaith digidol, cysylltedd, dyfeisiau a chynnwys i gyfoethogi'r profiadau y mae ysgolion yn trefnu eu bod ar gael i ddysgwyr. Nid ydym eisiau gosod cyfyngiadau ar Benaethiaid o ran sut maent yn mynd ati i benodi a defnyddio'r capasiti newydd hwn, felly rydym yn cydnabod y canlynol:

- Gallai ysgolion benodi athrawon, cynorthwywyr addysgu a rolau eraill yn yr ysgol sydd wedi eu cynllunio i ddarparu hyfforddiant, fel gweithwyr ieuenctid, yn unol â dealltwriaeth yr ysgol o'i dysgwyr
- Gallai'r capasiti newydd fod yn amser llawn neu'n rhan amser
- Gallai'r cydweithwyr newydd weithio ar draws mwy nag un ysgol
- Gallai penaethiaid benodi athrawon newydd yn yr ysgol er mwyn rhyddhau'r rhai sy'n adnabod eu dysgwyr orau i weithio gyda nhw i gyflymu eu cynnydd
- Gallai fod yna achosion lle caiff grŵp o gydweithwyr newydd ei recriwtio i weithio ar draws clwstwr cyfan neu bartneriaeth gydweithredol
- Bydd angen i setiau medrau cydweithwyr newydd adlewyrchu anghenion grwpiau a dysgwyr
- Bydd y model cyflawni y mae cydweithwyr newydd yn gweithio oddi mewn iddo yn benodol i anghenion yr ysgol a'i dysgwyr

### Egwyddor 4: Lleihau Biwrocratiaeth a Sicrhau Tryloywder

Mae dyrannu lefel fel hyn o fuddsoddiad i brosiect mewn cyfnod o straen ariannol difrifol ar draws y system addysg a thu hwnt yn golygu bod angen i ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau yn dda. Ar yr un pryd, rydym ni eisiau cyn lleied o waith papur ag y bo modd, felly rydym ni'n cynnig…

- Y dylai'r ysgol amlinellu'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud â'r adnoddau mewn ffordd syml, gan nodi nifer y dysgwyr sydd wedi eu cynnwys, ac amlinelliad o'r cwricwlwm a'r ateb staffio

- Y dylai ymgynghorydd her yr ysgol gytuno ar hyn yn achos ysgolion y dynodwyd bod angen lefelau coch ac ambr o gymorth arnynt ar hyn o bryd
- Y dylai'r bwriad gael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol, a threfnu ei fod ar gael i rieni a chymuned yr ysgol
- Y byddwn yn cynnal 'brîff dysgu' fel system addysg, trwy rannu gwybodaeth a mewnwelediadau o ran effaith y rhaglen wrth iddi ddatblygu

## Egwyddor 5: Egwyddor Cydweithio

### Rhanbarthau, awdurdodau lleol, prifysgolion a phartneriaid eraill

Rydym ni eisiau annog partneriaid addysg strategol i gydweithio i gefnogi'r gwaith hwn. Rydym ni eisoes yn gweld enghreifftiau o hyn yn dod i'r amlwg ar draws y system, a bydd y gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd pellach ar gyfer y rhanbarthau, awdurdodau lleol, prifysgolion, colegau AB a phartneriaid eraill i gefnogi plant, teuluoedd ac ysgolion wrth ddychwelyd i'r ysgol.

### Cydweithio ar lefel ysgol

Rydym ni eisiau annog clystyrau a chydweithredfeydd o ysgolion i gydgyfrannu eu hadnoddau a chyflawni más critigol o ran ehangu capasiti. Gallai hyn gynnwys cydweithio ar draws sectorau, cydweithio rhwng ysgolion yn yr un sector a chydweithio yn seiliedig ar gyflenwi partneriaeth mewn dosbarthiadau chweched.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Awdurdod lleol** | Sefydliad sy'n gyfrifol yn swyddogol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol |
| **CBAC** | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru: Y bwrdd arholi sy'n gwasanaethu Cymru |
| **Colegau Cymru** | Elusen addysg sy'n hyrwyddo budd addysg bellach i'r cyhoedd yng Nghymru. Hefyd, mae'n trefnu'r rhwydweithiau proffesiynol ar gyfer pob un o'r 13 coleg yng Nghymru. |
| **Consortiwm rhanbarthol** | Mae pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru, sef: GWE, ERW, GCA a CCD. Mae'r rhain yn gweithio gydag ysgolion i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, gan ddarparu ystod o gymorth sy'n cynnwys rhaglenni dysgu proffesiynol ac ymyrraeth |
| **Cymwysterau Cymru** | Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw hwn, sy'n gyfrifol am gydnabod cyrff dyfarnu ac adolygu a chymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn rhai gradd yng Nghymru |
| **Cyrsiau trwydded i ymarfer** | Cyrsiau yw'r rhain i alluogi dysgwyr i fodloni safonau cymhwysedd penodedig yn unol â gofynion cyfreithiol (neu statudol) |
| **Grant dal i fyny** | Cafodd y grant hwn ei gynnig i golegau yn ystod y pandemig gyda'r bwriad o liniaru effaith y tarfu ar ddysgu yr oedd dysgwyr wedi ei ddioddef. Roedd y grant i'w wario ar greu capasiti staffio ychwanegol |
| **Grant RACHS** | Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam. Cafodd y grant hwn ei gynnig i ysgolion yn ystod y pandemig i liniaru effaith y tarfu ar ddysgu yr oedd dysgwyr wedi ei ddioddef. Roedd y grant i'w wario ar greu capasiti staffio ychwanegol |
| **Rhwydwaith Seren** | Rhwydwaith o hybiau rhanbarthol sydd wedi eu cynllunio i gefnogi myfyrwyr chweched dosbarth mwyaf disglair Cymru i gyflawni eu potensial academaidd a gallu mynd i brifysgolion blaenllaw |

### Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Education Endowment Foundation (2018) *Teaching & Learning Toolkit*. Llundain: Education Endowment Foundation. [Ar-lein]. Ar gael o: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Toolkit/complete/EEF-Teaching-Learning-Toolkit-October-2018.pdf [Darllenwyd 3 Mai 2021]

Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl: Cynllun gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf [Darllenwyd 3 Mai 2021]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html [Darllenwyd 3 Mai 2021]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam: cwestiynau cyffredin*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-cwestiynau-cyffredin-html [Darllenwyd 3 Mai 2021]